

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

2 Mawrth 2020

Annwyl Jeremy

Arfer o ran offerynnau statudol

Yn ein cyfarfod ar 24 Chwefror 2020, gwnaethom ystyried Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2020 a Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2020. Er i ni ystyried ymatebion Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd a nodwyd ar gyfer y ddau offeryn statudol yn ystod y cyfarfod, rydym o'r farn bod dau o'r materion a nodwyd yn haeddu sylw pellach.

Yn y lle cyntaf, ac fel y codwyd yn ystod ein hystyriaeth o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2020 (Rheoliadau 2020), roedd troednodyn rheoliad 1(2) yn cynnwys cyfeiriad anghywir at reoliadau sydd eisoes wedi diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003. At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol i Reoliadau 2020 yn nodi dyddiad dod i rym anghywir.

Mewn ymateb i'r pwyntiau adrodd hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y gwall argraffyddol yn y troednodyn ac wedi rhoi sicrwydd y bydd y gwall yn cael ei gywiro gan argraffydd y Frenhines trwy ddefnyddio slip cywiro. O ran y gwall yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn eto bod y dyddiad a dod i rym y mae'n cyfeirio ato yn anghywir ond nid yw o'r farn y bydd hynny'n peri unrhyw anfantais.

Fel Pwyllgor rydym yn rhannu eich pryderon hirsefydlog am yr angen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. I'r mwyafrif o bobl nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau tanysgrifio y telir amdanynt gan gwmnïau preifat, y prif ffynhonnell wybodaeth sydd ar gael yw'r offerynnau statudol, ynghyd â'r deunydd esboniadol ynghlwm wrthynt, a gyhoeddir ar deddfwriaeth.gov.uk (a hyd yn oed tudalennau gwe'r Cynulliad). At hynny, rydym yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn aml yn troi at femoranda esboniadol cyn ystyried y darn penodol o gyfraith yn fanwl. Tynnaf eich sylw hefyd at ein hystyriaeth o Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 Yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau hynny, gwnaethom nodi bod y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef yn nodi'r dyddiad



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ SeneddDCC@cynulliad.cymru

☎ 0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ SeneddLJC@assembly.wales

☎ 0300 200 6565

anghywir ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020. Mewn ymateb, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Esboniadol wedi'i gywiro gerbron y Cynulliad. Am y rhesymau hyn, credwn, fel egwyddor, pan fo gwallau yn cael eu nodi o fewn offerynnau statudol a'r deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â hwy, y dylid cymryd camau bob amser i gywiro'r camgymeriadau.

Mae'r ail fater rydym am ei godi gyda chi yn ymwneud â'r trydydd pwynt adrodd o ran Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2020 (Gorchymyn 2020). Mae'r pwynt adrodd hwnnw yn tynnu sylw at y ffaith na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei gynhyrchu ar gyfer Gorchymyn 2020. Rydym yn ymwybodol bod paragraff 4.2 o'r cod a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 76 (1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (yn ymwneud â chyflawni asesiadau effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad ag is-ddeddfwriaeth berthnasol Cymru) yn rhestru eithriadau i bolisi cyffredinol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd yn glir pa eithriad o dan y cod sy'n berthnasol mewn perthynas â Gorchymyn 2020.

Mewn ymateb i'r pwynt hwn, nododd Llywodraeth Cymru fod y mater wedi'i ystyried ymhellach ac nad yw'r eithriadau yn y cod yn berthnasol yn yr achos hwn. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Er ein bod yn cydnabod y dull arfaethedig, mae gennym bryderon ynghylch effeithiolrwydd a dilysrwydd unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol a wneir ar ôl i orchymyn (neu unrhyw is-ddeddfwriaeth arall) gael ei wneud. Nodwn fod paragraff 4.1 o'r cod yn nodi bod yn rhaid ystyried asesiad o effaith unrhyw is-ddeddfwriaeth arfaethedig pan fydd yr opsiynau ar gyfer datblygu'r polisi yn cael eu hystyried (ychwanegwyd pwyslais.)

Rydym yn ymwybodol bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael cyfarwyddyd i adolygu'r cod eleni ac, ymhellach at fy llythyr ar 5 Rhagfyr 2019 at Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, bachaf ar y cyfle i ailddweud y byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth bellach am amserlen yr adolygiad, a'n bod yn edrych ymlaen at weld yr ymgynghoriad maes o law.

Byddem yn ddiolchgar am ymateb gennych sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd uchod, cyn gynted â phosibl. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Yn gywir



Mick Antoniw AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

